# Cytundebau Peidio â Datgelu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

13 Ebrill 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 15 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

1. *Sawl Staff Cymorth Aelod Cynulliad (SCAC) sydd wedi cael eu diswyddo ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC)?*
2. *Sawl SCAC apeliodd y penderfyniad?*
3. *Sawl apêl oedd yn llwyddiannus?*
4. *Sawl SCAC sydd wedi ymddiswyddo a llofnodi cytundeb peidio â datgelu ers sefydlu CCC?*
5. *Faint o arian a dalwyd fel telerau'r cytundebau peidio â datgelu hynny?*

*A allech chi hefyd ddadansoddi'r data fesul blwyddyn ariannol? Er enghraifft, yn 2016-17: 2 SCAC wedi'u diswyddo, 1 apêl, 0 yn llwyddiannus, ymddiswyddodd 2 SCAC a thalwyd £12,000 fel rhan o'u cytundebau peidio â datgelu.*

1. Ni allwn roi gwybodaeth i chi ers sefydlu'r Cynulliad, ond rydym yn dal gwybodaeth o 2013 ymlaen. Mae rhwng 5 a 10 o Staff Cymorth Aelod Cynulliad (SCAC) wedi cael eu diswyddo ers 2013. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac mae'n dod o fewn cwmpas yr eithriad "gwybodaeth bersonol" yn adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf). Nid ydym, felly, yn gallu rhoi'r gwir rif i chi. Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

2. Mae llai na 5 SCAC wedi apelio yn erbyn y penderfyniad. Eto, fel uchod, mae nifer y bobl mor isel byddai rhyddhau'r wybodaeth yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac mae'n dod o fewn cwmpas yr eithriad "gwybodaeth bersonol" yn adran 40 y Ddeddf. Nid

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

ydym, felly, yn gallu rhoi'r gwir rif i chi. Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

3. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac mae’n dod o fewn cwmpas yr eithriad "gwybodaeth bersonol" yn adran 40 y Ddeddf.  Nid ydym, felly, yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth i chi mewn ymateb i'r cais hwn. Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

4. Mae 8 SCAC wedi ymddiswyddo ac wedi llofnodi cytundebau peidio â datgelu ers 2013.

5. Talwyd cyfanswm o £59,090 fel telerau'r cytundebau peidio â datgelu a lofnodwyd. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr holl daliadau cytundebol megis tâl am wyliau a gronnwyd ond na gymerwyd, a thâl yn lle gweithio cyfnod rhybudd. Holwyd am ddadansoddiad o’r wybodaeth, ond mae'r wybodaeth yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac mae’n dod o fewn cwmpas yr eithriad "gwybodaeth bersonol" yn adran 40 y Ddeddf. Nid ydym, felly, yn gallu rhoi dadansoddiad i chi. Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Diogelu Data 1998, sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf, lle y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998 yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met…"

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys sy'n deillio o'r datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Caiff SCAC eu cyflogi yn uniongyrchol gan Aelodau Cynulliad (AC) a chaiff diswyddiadau eu trin gan yr AC unigol oni bai bod cyngor yn cael ei geisio gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. Gall materion cyflogaeth, yn enwedig diswyddiadau, fod yn hynod o sensitif a pheri gofid i'r rheiny sy'n gysylltiedig, a dyna pam yr ydym wedi rhoi gwybodaeth ddienw i chi er mwyn amddiffyn yr unigolion.

Mae cytundebau peidio â datgelu yn creu perthynas gyfrinachol rhwng y partïon i warchod unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei rhannu. Nid oes gan y staff unrhyw ddisgwyliad y bydd gwybodaeth yn ymwneud â manylion eu tâl fel rhan o arwyddo cytundeb o'r fath yn cael ei chyhoeddi a byddai rhoi dadansoddiad fesul blwyddyn ariannol yn gadael i'r unigolion hynny gael eu hadnabod.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i drafod Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oes unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu prosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf â thair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau'r budd cyhoeddus hwnnw; a
- Rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen i hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y sawl y mae'r data yn ymwneud ag hwy.

O ran rhan gyntaf y prawf, mae budd cyhoeddus mewn tryloywder yn gyffredinol, ac yn arbennig wrth wybod faint o arian cyhoeddus a wariwyd ar gytundebau peidio â datgelu. Yn ein barn ni, mae'r budd cyhoeddus yn cael ei fodloni yn yr achos penodol hwn trwy ddatgelu ffigwr cyffredinol, hynny yw, heb ei ddadansoddi i'r lefel y gofynnwyd amdano. Nid oes, felly, budd cyfreithlon mewn darparu gwybodaeth heblaw'r hyn a nodwyd yn ein llythyr atoch chi.

Felly, ni wnaethom ystyried y ddwy ran arall o'r prawf. Ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.